

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 - Datganiad Ymgynghori

Cefndir

Yng Nghynllun Gweithredu'r Pedair Gwlad ar gyfer y Coronafeirws a gyhoeddwyd ar 3 Mawrth 2020¹, ymrwymodd Llywodraeth Cymru y dylid bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth cyn gynted â phosibl. Dilynwyd hyn gan Ddeddf Coronafeirws 2020, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill, gan alluogi newidiadau allweddol i gael eu gwneud wrth ddarparu gofal a chymorth i oedolion ac oedolion sy'n ofalwyr yng Nghymru.

Ar 3 Ebrill ysgrifennwyd at aelodau o Grŵp Cynllunio ac Ymateb Gofal Cymdeithasol Covid-19, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru i ofyn ar fyrder am eu barn ar newidiadau arfaethedig i reoliadau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016² ('Deddf 2016'). Nodwyd y newidiadau hyn mewn partneriaeth â'r rheoleiddiwr gwasanaeth, Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC').

Gofynnwyd am ymateb brys, erbyn 17 Ebrill, ac fe ddaeth 11 o ymatebion i law. Mae rhestr o'r ymatebwyr wedi'i chynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon.

Lluniwyd y datganiad hwn i grynhoi'r adborth cyffredinol a ddaeth i law am y newidiadau arfaethedig, yn enwedig y rhai a wnaed o dan adran 27 (1) o Ddeddf 2016. Oherwydd bod angen ymgynghori'n gyflym, nid ymgynghorwyd ar destun y rheoliadau eu hunain. Gosodir y datganiad hwn gerbron Senedd Cymru, yn unol ag adran 27 (5) o Ddeddf 2016.

Diben y newidiadau

Manylir ar y rhesymeg a'r bwriad y tu ôl i'r newidiadau hyn o fewn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ('Rheoliadau Coronafeirws') ac felly nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma. Gellir gweld y Memorandwm Esboniadol, ynghyd â'r Rheoliadau drafft, ar y dudalen 'dogfennau a osodwyd' ar wefan Senedd Cymru³.

I grynhoi, ac yng ngoleuni'r pwysau presennol ar ddarparwyr gofal cymdeithasol oherwydd pandemig y Covid-19, nod y newidiadau hyn yw cefnogi darparu gofal cymdeithasol brys i oedolion a symleiddio'r camau gwirio cyn cyflogi sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr gofal preswyl newydd a gweithwyr gofal cartref newydd.

Mae'r prif fwriad yn ddeublyg:

Yn gyntaf, **esemptio** rhai gwasanaethau gofal brys a chymorth i oedolion, a sefydlwyd i ymateb i Covid-19, rhag cofrestru gydag AGC.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-action-plan>

² <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents>

³ <https://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document>

Yn ail, **llacio'r** gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau i gynnal gwiriadau cyn cyflogi ar weithwyr cyflogedig mewn gofal preswyl a gofal cartref.

Adborth ar Gynigion

1. Esemptio gwasanaethau cymorth a gofal brys a sefydlwyd i ymateb i CV-19 rhag cofrestru gyda AGC (gwasanaethau oedolion yn unig)

Gwneir yr esemptiad hwn, drwy ddiwygiad i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017⁴ ('y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig'), gan ddefnyddio pwerau yn adran 2(3) o Ddeddf 2016.

Ymatebion a ddaeth i law

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod esemptio'r gwasanaethau hyn – i'w gweithredu gan ddarparwyr sydd eisoes wedi cofrestru gydag AGC neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal, am gyfnod o hyd at naw mis – rhag y gofyniad i gofrestru gydag AGC, yn angenrheidiol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn. Bydd yn ychwanegu capasiti yn y system ac yn lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau presennol [*i gefnogi unigolion newydd a allai fod yn heintus ond nad oes ganddynt symptomau Covid-19*].

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon bod AGC yn penderfynu a oes angen cofrestru'r gwasanaethau newydd hyn ar sail pob achos unigol ac y byddent yn cefnogi llacio'r gofynion ar ystafelloedd a rennir. Credwyd bod y rhain yn bragmatig ac yn synhwyrol. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y weithdrefn ar gyfer hysbysu AGC o fwiriadau i ail-greu'r gofod mewn lleoliadau preswyl presennol er mwyn darparu cymorth cartref brys i drigolion dros dro a gofynnwyd am arweiniad ar atebolrwydd o fewn y sefyllfaoedd hyn, gyda goblygiadau posibl i ddarparwyr ac Unigolion Cyfrifol o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Roedd un ymatebydd yn awyddus i'r esemptiadau weithio hefyd i helpu i atal derbyniadau i'r ysbyty, ac na ddylent sbardubo ffocws ar ryddhau yn unig. Teimlai'r ymatebydd y dylid cynyddu hyblygrwydd mewn lleoliadau eraill hefyd, e.e. byw â chymorth.

Roedd cefnogaeth i'r cynnig y dylid casglu cymaint o ddata a gwybodaeth ag sy'n rhesymol bosibl, ar y defnydd o'r esemptiadau, er mwyn gallu monitro'r gwasanaethau hyn yn barhaus ac yn y dyfodol.

Er hynny mynegwyd pryderon y gallai sefydlu gwasanaethau newydd, sy'n gofyn am staff ac adnoddau ychwanegol, symud y rhain oddi wrth y gwasanaethau presennol, sydd eisoes yn cael anawsterau gyda recriwtio, cadw, offer a chyllid. Hefyd, gallai'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru gael ei amsugno i'r gwasanaethau newydd a lleihau'r cyllid sydd ar gael i eraill.

Y teimlad oedd y gellid gwneud mwy i gynyddu capasiti'r gwasanaethau presennol, cyn creu gwasanaethau newydd a allai waethygu'r heriau o ran darparu gofal diogel. Dylid hefyd ystyried datblygu 'strategaeth ymadael' ar gyfer unrhyw wasanaethau newydd, fel bod hyn yn cael ei reoli'n briodol pan nad oes eu hangen mwyach.

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/contents/made>

Er bod un ymatebydd yn deall yr angen i gynhyrchu cyfres o fesurau i gefnogi darparwyr gofal o dan yr amgylchiadau eithriadol presennol a chytuno y gallai defnyddio safleoedd nad ydynt yn debygol o fodloni'r safonau gofynnol o dan Ddeddf 2016 ar gyfer gwasanaethau preswyl brys fod yn briodol ac y byddai'n hwyluso'r capasiti, roedd ganddo nifer o byderon ac awgrymiadau. Y rhain oedd:

- a fyddai'n rhaid i'r gwasanaethau newydd fodloni'r un safonau gofal a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.
- yr angen i bennu pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am oruchwylio darpariaeth wedi'i heithrio, yn niffyg mecanwaith i fonitro neu adrodd ar y modd y mae'r gwasanaethau newydd hyn yn diwallu anghenion ac yn amddiffyn pobl agored i niwed dros gyfnod o 9 mis.
- yr angen i fynegi'n benodol pam na ddylai gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gael eu cynnwys yn yr eithriad, ac egluro pam na fyddai lefel debyg o ddiogelwch yn cael ei hymestyn i bobl hŷn a allai fod â diffyg galluedd a bod heb deulu ar hyn o bryd.

Os bydd angen i'r esemptiadau fod mewn grym am fwy o amser na'r 9 mis a fwriadwyd, cafwyd galwadau bod datganiad yn cael ei wneud gerbron y Senedd i ddangos atebolrwydd dros y penderfyniad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cymhwyso i leoliadau gofal cymdeithasol i oedolion

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pwyntiau a godwyd yn ofalus, y mae llawer ohonynt yn adlewyrchu'r pryderon y rhoddwyd sylw iddynt yn natblygiad cychwynnol y polisi. Er na fydd gwasanaethau, nad ydynt yn wasanaethau cofrestredig, yn cael eu dal gan reoleiddiwr i'r safonau a nodir yn Rheoliadau 2017, mae'r Rheoliadau Coronafeirws yn feincnod o safonau gofal a chymorth y byddem yn disgwyl i Gomisiynwyr roi sylw iddynt wrth gomisiynu gofal o'r fath, ac yn yr un modd darparwyr wrth ei ddarparu. Bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, fel comisiynwyr gofal o'r fath, yn cadw goruchwyliaeth a'u dyletswydd gofal mewn perthynas ag unigolion sy'n derbyn gwasanaethau, a gaiff eu diogelu ymhellach drwy gontract gyda'r gwasanaethau, gan fynd i'r afael â'r pwynt a wnaed ynglŷn â pha gorff fydd yn goruchwylio safonau. Yn olaf, bydd gan Arolygiaeth Iechyd Cymru ac AGC oruchwyliaeth reoliadol dros awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol darparu gofal a chymorth/gwasanaethau iechyd a diogelu pobl, gan gynnwys drwy eu swyddogaeth gomisiynu.

Er bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r ffaith nad yw'r esemptiad yn gymwys i bobl hŷn nad oes ganddynt alluedd ac sydd heb deulu, nid ystyrir bod eu sefyllfa'n gwbl gymaradwy â'r hyn sy'n digwydd mewn perthynas â phlant agored i niwed. Yn ogystal, nid ystyrir ei bod yn realistig drafftio esemptiad ar hyd y llinellau hynny gan fod yr esemptiad yn gymwys i wasanaethau, a fyddai'n cynnwys cymysgedd o breswylwyr/cleientiaid gyda galluedd a hebdo, a chyda theulu neu hebdo, yn hytrach nag i unigolion.

Cymhwyso i leoliadau gofal cymdeithasol plant

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw nad yw'n bwriadu caniatáu sefydlu gwasanaethau brys, nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer plant oherwydd bregustra penodol penodol y grŵp hwn.

Hyd y newidiadau, trefniadau trosiannol, etc

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pwyntiau a wnaed yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch pa mor hir y dylai'r newidiadau aros yn eu lle, sut y dylid eu gwrthdroi a pha wybodaeth y dylid ei darparu i bwy. Bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu wrth ddatblygu'r trefniadau a wnaed i ddiddymu'r Rheoliadau Coronafeirws pan fydd y cyfnod brys ar ben.

Pwyntiau eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pwyntiau a wnaed mewn perthynas â chyflogau, staffio ac adnoddau, y defnydd o gyllid, datblygu capasiti presennol etc. Mae'r Rheoliadau Coronafeirws yn hwyluso ehangu ddarpariaeth yn gyflym drwy greu gwasanaethau esempt newydd ond nid ydynt yn gorfodi hyn. Dim ond gyda chymorth neu ar gais comisiynwyr gwasanaethau lleol (awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) y gellir creu unrhyw ddarpariaeth o'r fath a bydd rhan o'r broses o ystyried creu gwasanaethau o'r fath yn cynnwys ystyried yr effaith ar ddarpariaeth gofrestredig leol.

O ran ystafelloedd a rennir, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu capasiti mewn cartrefi gofal i ymateb i'r argyfwng presennol drwy ganiatáu, mewn amgylchiadau penodol, i ystafelloedd newydd a rennir gael eu creu drwy ad-drefnu ystafelloedd gwely sydd heb eu meddiannu ar hyn o bryd a manau eraill nad ydynt yn cael eu defnyddio.

2. Llacio'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau i gynnal gwiriadau cyn cyflogi ar weithwyr cyflogedig mewn gofal cartref a gofal preswyl

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, gan ddefnyddio pwerau yn adran 27 (1) o Ddeddf 2016.

Ymatebion a ddaeth i law

Roedd llawer o'r ymatebion yn cytuno'n gyffredinol bod y mesurau hyn yn gymesur, o dan yr amgylchiadau, o gofio ei bod yn debygol y bydd pwysau cynyddol ar adnoddau staffio i ddarparu gofal a chymorth, naill ai mewn cartrefi gofal neu leoliadau gofal cartref. Byddant yn cynyddu hyblygrwydd i ddarparwyr ac yn rhoi'r cyfle iddynt wneud dewisiadau gwybodus yn ystod y broses recriwtio, a ddylai gael eu cynnal neu eu goruchwyllo gan yr Unigolyn Cyfrifol.

Roedd y cynnig i beidio â chynnwys gwasanaethau cartrefi gofal i blant yn cael ei ddeall, ond gwelwyd bod gweithwyr gofal cartref yn aml yn cefnogi cymysgedd o gleientiaid sy'n oedolion a phlant, felly gallai cyfyngu pobl i oedolion yn unig fod yn broblem yn weithredol. Byddai Gofal Cymdeithasol Cymru yn gefnogol i ymestyn yr esemptiad i gynnwys gwasanaethau cartrefi gofal i blant, gan y byddent hwy, fel rheoleiddiwr y gweithlu, yn cadw'r hawl i wrthod cais unigolyn i gofrestru.

Awgrymodd sawl ymatebydd y byddai eglurder ynghylch beth yw ystyr 'rhesymol ymarferol' – o ran cael tystiolaeth foddhaol o gyflogaeth flaenorol, cymwysterau perthnasol a hanes cyflogaeth – yn ddefnyddiol, efallai drwy ganllawiau neu gyfeiriad at gyfraith achosion berthnasol. Bydd hyn yn lleihau'r risg o ddehongli amrywiol. Roedd cydnabyddiaeth y byddai angen i brotocolau lleol addasu, er mwyn sicrhau bod y newidiadau'n cael eu cymhwyso'n ddiogel a sicrhau nad yw ymgeiswyr amhriodol yn cymryd mantais arnynt.

Nodwyd bod rhai darparwyr eisoes yn edrych ar ffyrdd amgen o gynnal archwiliadau cyn-cyflogi, megis tystlythyron ffôn a defnyddio slipiau cyflog i gadarnhau hanes cyflogaeth, ac awgrymwyd y gallai'r rhagofyniad ar gyfer tystysgrifau geni gael ei lacio, yn amodol ar gael dau ddull arall o adnabod unigolyn a darparu tystysgrifau geni o fewn amserlen benodol.

Awgrymwyd y dylid ymestyn y dull gweithredu a gynigir i Atodlen 2, Rhan 1 (Rheoliad 59) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, yn benodol, 8 (a) a (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gopi o gymwysterau a phrofiad llawn yr aelod o staff gael eu cadw yn y gwasanaeth, a chael a chadw eu pasbort a'u tystysgrif geni yn y gwasanaeth. Byddai'r newid o ran 8 (a) yn sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'r newidiadau i Atodlen 1 Rhan 1 a byddai llacio (b) yn hwyluso'r broses o gael tystysgrifau geni a phasbortau, a fydd yn gosod rhwystrau pellach rhag recriwtio cyflym mewn sefyllfa o argyfwng. Gofynnodd yr ymatebydd i'r rheoliadau hyn gael eu hatal, gyda'r gofyniad eu bod wedyn yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod rhesymol ar ôl i'r ddeddfwriaeth frys gael ei chodi.

Roedd un ymatebwr yn gwrthwynebu'n fryf llacio'r gofynion ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi mewn gofal cartref a gofal preswyl ar gyfer oedolion. Yn hytrach, roeddent o blaid defnyddio'r ceisiadau DBS Covid-19 newydd a gwasanaeth gwirio Rhestr Wahardd carlam sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol a gyflogir i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd â Covid-19 neu y disgwylir bod arnynt Covid-19. Roeddent yn pwysleisio'r gofal agos a phersonol a ddarperir gan weithwyr gofal cartref a phreswyl ac yn tanlinellu bod camau gwirio cyn cyflogi yn hanfodol i ddiogelu unigolion, gan awgrymu y byddai'r mesurau hyn yn peri risg cynyddol annerbyniol.

Os bydd angen i'r eithriadau hyn fod mewn grym am fwy na 9 mis, cafwyd galwadau y dylid gwneud datganiad gerbron y Senedd i ddangos atebolrwydd dros y penderfyniad. Dylid darparu ar gyfer cyfnod pontio (o 3 mis), er mwyn caniatáu amser adfer i ddarparwyr, i roi'r holl ddogfennau ar gyfer y gweithwyr hynny a gafodd eu recriwtio o dan y mesurau dros dro, i gymryd stoc, ac i baratoi i aildechrau gweithdrefnau recriwtio arferol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cadw copïau o dystysgrifau geni'r gweithwyr cyflogedig, tystysgrifau cymwysterau, etc ar ffeil

Er bod Llywodraeth Cymru'n deall y bwriad wrth wraidd y cynnig bod y gofyniad i gopi o dystysgrif geni aelod o staff gael ei gadw yn y gwasanaeth yn cael ei lacio, mae o'r farn nad oes angen diwygio paragraff 8 (b) o Atodlen 2 gan nad yw hyn yn ofyniad/gwiriad cyn cyflogi. Dylai gwasanaethau nad ydynt, am resymau sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws, yn meddu ar gopiâu o dystysgrifau geni ar ffeil ar gyfer aelodau staff a gymerir ymlaen yn ystod cyfnod y pandemig, wneud trefniadau priodol i gael gafael arnynt pan fydd y cyfnod brys wedi mynd heibio.

Goruchwylio gwaith unigolion a recriwtiwyd ar sail gwiriadau anghyflawn

Mae'r mater o sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer goruchwylio ac asesu personau unwaith y byddant yn eu swydd – o gofio'r llacio ar y gwiriadau - wedi cael sylw eisoes yn y Rheoliadau eraill yn Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol (Cymru) 2017.

Ystyr 'Rhesymol Ymarferol'

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r cais am eglurder o ran ystyr "rhesymol ymarferol" pan gaiff ei gymhwyso i wiriadau cyn cyflogi ac mae'n bwriadu mynd i'r afael â hyn trwy gyfrwng cwestiynau cyffredin neu ganllawiau

Cymhwysedd i staff gofal cymdeithasol oedolion

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pryderon a fynegwyd yn ofalus. Mae'n ofynnol i weithwyr gofal cartref gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o 1 Ebrill 2020, ac mae'r mwyafrif helaeth wedi gwneud hynny erbyn hyn. Mae cofrestru gwirfoddol ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i oedolion hefyd wedi dechrau. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Rheoliadau yn caniatáu inni hepgor unrhyw wiriadau cyn cyflogi perthnasol, ond yn hytrach llacio'r gofynion ar gyfer cynnal tystiolaeth o wiriadau o'r fath, yn benodol mewn cysylltiad ag amgylchiadau arbennig yr argyfwng presennol. Yn benodol, mae'n ofynnol i'r person ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â'r materion hynny sy'n rhesymol ymarferol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Rheoliadau yn gymesur ac yn briodol. Nid yw'r Rheoliadau coronafeirws yn gwneud unrhyw newidiadau i'r gofynion sy'n ymwneud â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwiriadau cyn cyflogi mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i blant

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r ymateb ond nid yw'n bwriadu ymestyn y darpariaethau sy'n ymwneud â gwiriadau cyn cyflogi i wasanaethau i blant ar hyn o bryd, er gwaethaf y posibilrwydd y gallai rhai gwasanaethau ddarparu ar gyfer grwpiau cleientiaid cymysg (plant/oedolion). Mae hyn oherwydd bregustra penodol plant sy'n derbyn gofal fel grŵp.

Gwiriadau DBS

Mae'r materion a godwyd mewn perthynas â gwiriadau'r DBS wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru i'w hystyried mewn perthynas â hysbysiadau arfaethedig o dan a. 33 o Ddeddf Coronafeirws 2020.

3. Adborth arall a ddaeth i law

Mynegwyd pryder y gallai newid deddfwriaethol ddod yn rhy hwyr i helpu'r cyfnod rhyddhau brig.

Codwyd y posibilrwydd o lacio gofynion dros dro o ran rheoli gwasanaethau, lefelau staffio gofynnol ac ymdriniaeth ddwbl i helpu gydag anawsterau staffio, tra'n sicrhau gofal diogel a seiliedig ar risg, ar yr adeg hon.

Ceisiwyd eglurder ynglŷn â defnyddio eiddo a oedd ar gael gan ddarparwyr anghofrestredig e.e. cartrefi preifat neu eiddo nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol i ddarparu gofal, ac a fyddai hyn yn cael ei ganiatáu pe bai'n defnyddio darparwr cofrestredig i ddarparu gwasanaethau gofal mewn eiddo o'r fath.

Nodwyd ei bod yn ymddangos bod y gwasanaeth newydd dros dro ar gyfer gwiriadau'r DBS yn cynorthwyo darparwyr i gael staff/gwirfoddolwyr newydd yn eu lle yn weddol gyflym. Fodd bynnag, dywedodd fod achosion lle y mae darparwyr wedi cael eu hysbysu'n anghywir gan staff DBS nad yw'r gwasanaeth yn gymwys i weithwyr gofal a staff eraill, megis glanhawyr, sy'n hanfodol i weithredu cartrefi gofal.

Teimlwyd bod angen llwybr lle y gallai unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r newidiadau gael eu cyfleu i'r cyrff perthnasol megis Llywodraeth Cymru, AGC a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac y dylid cyfleu hyn yn glir drwy unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Dylai hyn hefyd ymdrin â sut y bydd yr hyblygrwydd a gyflwynir drwy'r newidiadau yn cael ei ddiddymu'n raddol ac yn cael ei gyfleu i'r darparwyr, er mwyn eu galluogi i addasu eu gwasanaethau gyda rhybudd rhesymol. Dylid adolygu'r darpariaethau yn barhaus.

Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn temlo ei bod yn bwysig pwysleisio na ddylid ystyried y newidiadau hyn yn ddangosydd bod agweddau ar Ddeddf 2016 yn methu, yn hytrach, ei bod yn galluogi newidiadau i gael eu gwneud ar adegau o argyfwng.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pwyntiau a godwyd a bydd yn eu hystyried yn briodol wrth weithredu'r polisi ac mewn trefniadau dilynol i drosglwyddo'n ôl i ddulliau arferol o weithio.

Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad

1. Partneriaeth Ranbarthol Gwent
2. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
4. Cartrefi Cymunedol Cymru
5. Fforwm Gofal Cymru
6. Cymorth Cymru
7. Gofal Cymdeithasol Cymru
8. Gofal a Chymorth "Pobl"
9. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
10. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
11. Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg